

YSGOL
ABERCONWY



Ailagor yr ysgol Medi 2020

Canllaw i Rieni

Mae'r wybodaeth yn y llyfryn hwn hefyd ar gael fel 'SWAY' ar ein gwefan YMA.



1. Cyflwyniad

Nod y llyfryn hwn yw rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i baratoi eich plant ar gyfer y tymor newydd.

Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i ysgolion agor i bob myfyriwr yn nhymor yr Hydref ac "o ail wythnos y tymor ymlaen, disgwylir y bydd angen i ysgolion a lleoliadau gynyddu nifer y dysgwyr sy'n bresennol, gan arwain at ddychwelyd yn llawn ar 14 Medi pan fydd yn orfodol i bob dysgwr fynychu'r ysgol."

Gobeithiwn y bydd y llyfryn hwn yn rhoi'r manylion sydd eu hangen arnoch ynglŷn â sut rydym yn bwriadu cyflawni hyn, yn ogystal â rhoi sicrwydd i chi am y mesurau a fydd gennym ar waith i gadw pawb yn ddiogel.

Byddwn wrth gwrs yn rhoi mwy o fanylion i'ch plant wrth iddynt ddychwelyd, ond yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â ni.

2. Pryd fydd yr ysgol yn cychwyn?

Er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau newydd yn cael eu profi a'u gweithredu'n drylwyr, rydym am ailagor yr ysgol i fyfyrwyr yn raddol. Bydd hyn hefyd yn caniatáu i ni roi gweithgareddau pontio effeithiol ar waith ar gyfer grwpiau blwyddyn penodol. Yn unol â hynny, bydd myfyrwyr yn dychwelyd i'r ysgol ar y dyddiau canlynol :

- Blwyddyn 7 : Dydd Iau 3 Medi ymlaen
- Blwyddyn 12 : Dydd Gwener 4 Medi ymlaen
- Blwyddyn 11 & 13 : Dydd Llun 7 Medi ymlaen
- Blwyddyn 10 : Dydd Mawrth 8 Medi ymlaen
- Blwyddyn 9 : Dydd Mercher 9 Medi ymlaen
- Blwyddyn 8 : Dydd Iau 10 Medi ymlaen.

Bydd y diwrnod ysgol yn cychwyn fel arfer am 8.45yb ac yn gorffen am 3.10yp.

3. A oes rhaid i'm plentyn fod yn bresennol?

Mae'r Llywodraeth wedi cynghori y dylai pob plentyn ddychwelyd i'r ysgol yn nhymor yr Hydref.

4. Beth fydd yn digwydd os yw fy mhentyn yn sâl?

Os yw eich plentyn yn sâl, neu'n methu mynychu'r ysgol am resymau eraill, rhowch wybod i ni drwy ffonio neu ddefnyddio Ap 'Schoolcomms'. (Bydd Rhieni Blwyddyn 7 yn gallu cael mynediad i'r Ap – a ddefnyddir hefyd ar gyfer ychwanegu arian cinio at gyfrif eich plentyn – drwy ddilyn y gweithdrefnau [YMA](#) ar ôl 1 Medi).

Yn benodol, os ydyn nhw'n dangos symptomau Covid-19 canlynol, mae'n hanfodol eich bod chi'n eu **cadw i ffwrdd o'r ysgol**, yn hunanynysu ac yn archebu prawf.

- Twymyn/tymheredd uchel
- Peswch di-baid/parhaus
- Colli synnwyr blas neu arogl

Yn ogystal, os yw aelodau eraill o'r cartref yn dangos unrhyw rai o'r symptomau hyn, **peidiwch ag anfon plant i'r ysgol** a hunanynyswch.

Os yw eich plentyn yn sâl, gyda symptomau Covid-19 **yn ystod y diwrnod ysgol**, rydym wedi sefydlu cyfleuster 'ynysu' yn yr ysgol iddynt gael eu gwahanu oddi wrth weddill yr ysgol a derbyn y gofal sydd ei angen arnynt. Mae'n debyg y byddwn yn cysylltu â chi ac yn gofyn i chi eu casglu, cychwyn cyfnod o ynysu a threfnu prawf.

Byddem hefyd yn ymgysylltu â phrotocolau 'Profi, Olrhain, Diogelu' y Llywodraeth a glanhau unrhyw ardaloedd lle maent wedi bod, ond byddem yn annhebygol o anfon plant eraill adref neu gau'r ysgol, oni bai ein bod yn cael ein cynghori i wneud hynny gan lechyd Cyhoeddus.

5. Sut bydd fy mhlentyn yn cyrraedd yr ysgol?


Bydd cludiant i'r ysgol a ddarperir gan Gonwy yn rhedeg ar yr amseroedd arferol. Mae llythyr ar wahân ar ddefnydd diogel o'r cludiant hwn YMA. Yn benodol, nodwn fod CBSC yn cynghori defnyddio gorchuddion wyneb, yn unol â chynghor cenedlaethol ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus.

Er bod popeth wedi'i wneud i sicrhau diogelwch a lleihau'r risg o haint Covid-19, byddem hefyd yn cynghori eich bod yn ystyried defnyddio 'cyfleoedd teithio gweithredol' eraill lle bo'n ymarferol ac yn ddiogel i wneud hynny.

6. Beth fydd yn digwydd pan fydd plant yn cyrraedd yr ysgol?

Bydd giataiu ar agor fel y gall plant gyrraedd y safle o 08:15 y bore. Yna bydd myfyrwyr yn cael eu cyfeirio i ardal y neuadd chwaraeon lle byddant yn defnyddio'r orsaf diheintio dwylo ar unwaith ac yn tynnu eu masgiau, gan gael gwared arnynt yn y bin a ddarperir os bydd angen. Byddant yn symud ymlaen trwy'r neuadd chwaraeon, ac yn gadael trwy allanfa caffi 6.

Yn y lle cyntaf, dylai myfyrwyr (heblaw myfyrwyr pontio) ymgynnull mewn ardaloedd dynodedig ar iard yr ysgol, gyda'r nod o sicrhau'r lleiafswm o gysylltiad rhwng grwpiau blwyddyn.



Bydd myfyrwyr yn cael eu derbyn i adeilad yr ysgol (trwy'r mynedfeydd a nodir uchod) gan y tîm ar ddyletsywydd mewn trefn bendant, ac yn cael eu gyrru i leoliad gwrs gyntaf y bore.

7. Diogelwch yn yr Ystafell Ddosbarth

Mae'r ystafelloedd dosbarth wedi'u gosod allan a'u trefnu fel a ganlyn yn unol â chanllawiau'r sefydliad a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

- Lle bo modd, gosodwyd cadeiriau a byrddau i ganiatáu i fyfyrwyr wynebu blaen y dosbarth, yn hytrach nag wynebu ei gilydd.
- Defnyddir tâp i nodi 'parth addysgu' 2m ar flaen y dosbarth. Bydd yr athro yn defnyddio'r ardal hon i gadw pellter oddi wrth y myfyrwyr.
- Ni fydd unedau aerdymheru yn cael eu troi ymlaen.
- Dylai ffenestri aros ar agor.
- Dylid gosod drysau ar agor tra bydd yr ystafell yn cael ei defnyddio i ganiatáu cylchredeg awyr iach yn yr ystafell.
- Bydd hylif diheintio dwylo ar gael ym mhob ystafell ac yn cael ei ddefnyddio'n briodol, ynghyd â golchi dwylo yng nghyfleusterau toiled yr ysgol.
- Bydd hancesi papur ar gael ym mhob dosbarth i gefnogi'r cyngor 'Daliwch o, Biniwch o, Lladdwch o'.

Bydd tîm o lanhawyr o Sodexo ar y safle trwy'r dydd ac yn gweithio o amgylch gweithgareddau ag egwylliau i lanhau ardaloedd, drysau a thoiledau i gefnogi cynnal y lefelau glendid uchaf posibl.

8. Sut olwg fydd ar amserlen fy mhlentyn?

Er mwyn lleihau cysylltiad rhwng grwpiau blwyddyn mae amserlen yr ysgol wedi'i haildrefnu yn flociau bore a phrynhawn. Bydd pynciau yn derbyn tua'r un faint o amser ag y byddent fel arfer yn ei ddisgwyl yn ystod yr wythnos, ond mewn blociau sengl, yn hytrach na gwersi un awr wedi'u gwasgaru ar draws yr wythnos. Bydd hyn yn caniatáu i egwylliau ac amserau cinio gael eu trefnu am yn ail er mwyn osgoi cysylltiad rhwng grwpiau blwyddyn.

9. Beth ddylai fy mhlentyn ddod gydag ef/hi i'r ysgol?

Bydd angen i'ch plentyn ddod â'r canlynol: eu potel ddŵr eu hunain a'u cas pensiliau eu hunain yn cynnwys eu defnyddiau ysgrifennu/offer arferol. Ni fyddant yn gallu rhannu eu hadnoddau gyda phlant eraill na'r staff.

10. Trefniadau amser cinio

Bydd y ffreutur ar agor i un grŵp blwyddyn ar y tro, ond bydd plant yn parhau i allu prynu bwyd yn y ffordd arferol os dymunant. Wrth gwrs, gallant barhau i ddod â'u cinio pecyn eu hunain os yw'n well ganddynt.

11. Pa newidiadau eraill fydd ar safle'r ysgol?

Bydd system unffordd ar waith, a gofynnwn i bob plentyn ddilyn y saethau a'r cyfarwyddiadau sy'n ei nodi. Cewch hyd i gopi ar wefan yr ysgol.

12. Gwisg Ysgol

Fel bob amser, byddwn yn dechrau tymor yr Hydref gyda disgwyliadau uchel o ran safon ein gwisg ysgol. Mae'r darparwyr gwisg ysgol yn ailagor yn barod at y tymor newydd ac mae'r holl fanylion sydd eu hangen arnoch i'w gweld yma : <https://www.aberconwy.conwy.sch.uk/school/uniform>.

Ar ddiwrnodau pan fydd gan eich plentyn Addysg Gorfforol, byddant yn cael gwisgo'u cit Addysg Gorfforol trwy'r dydd, er mwyn osgoi'r angen i newid yn agos at eraill yn ystod y dydd.

13. Gweithdrefnau Eraill

Rydym yn rhagweld, cyn belled ag y bo modd, y bydd ein holl weithdrefnau a pholisiau arferol yn gweithredu fel arfer. Er enghraifft, bydd y system dalu ôl bys yn y ffreutur ar waith yn llawn a bydd gwaith cartref yn cael ei osod yn ôl yr arfer!

14. Beth ddylwn i ei wneud os bydd angen i mi ddod i gyfarfod yn yr ysgol?

Rydym yn gofyn i rieni ac ymwelwyr eraill beidio â dod ar safle'r ysgol heb apwyntiad. Os oes angen i chi siarad â ni am rywbeth, os gwelwch yn dda cysylltwch â ni drwy ffonio neu ebostio yn y lle cyntaf. Os ydym yn teimlo bod angen cyfarfod wyneb yn wyneb, gallwn drefnu hynny'n ddiogel ar amser penodol.

Os ydych chi'n mynychu cyfarfod, byddwch yn derbyn gwybodaeth yn y dderbynfa am ein gweithdrefnau o ran diheintio dwylo a chadw pellter cymdeithasol, a gofynnwn i chi ddilyn y rhain yn ofalus.

15. Beth arall mae'r ysgol yn ei wneud i ofalu am fy mhlentyn?

Rydym yn ymwybodol iawn o ba mor anodd fydd y trosglwyddo yn ôl i'r ysgol i rai o'n myfyrwyr. Bydd y tîm bugeiliol a staff cymorth eraill yn gweithio'n galed i roi'r gefnogaeth sydd ei hangen ar blant drwy gydol y cyfnod hwn. Os ydych chi'n teimlo y byddai eich plentyn yn elwa o gefnogaeth gyda materion penodol, neu os oes pethau yr ydych am ein gwneud yn ymwybodol ohonynt, os gwelwch yn dda rhowch wybod i ni.

Mae'r gweithdrefnau a'r manylion a amlinellir yn y llyfryn hwn wedi cael eu hasesu am risg gan yr ysgol a'u gwirio gan CBSC sy'n fodlon eu bod yn ymateb priodol a rhesymol i ganllawiau'r llywodraeth ar ailagor ysgolion.